



Department for Environment Food & Rural Affairs

Seacole Building 2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF
T: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad: ## Gorffennaf 2023

Annwyl Ymgynghorai,

Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Pysgodfa arfaethedig ar gyfer Draenogiaid môr yng Nghymru a Lloegr

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn am y Cynllun Rheoli Pysgodfa (FMP) arfaethedig ar gyfer Draenogiaid môr a'i Adroddiad Amgylcheddol cysylltiedig ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi helpu i ddylanwadu ar ddyfodol polisi rheoli pysgodfeydd Draenogiaid môr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ymgynghoriad yn adeiladu ar ymgysylltu blaenorol â physgotwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant yn y pysgodfeydd wrth barato'i'r Cynllun Rheoli Pysgodfa arfaethedig.

Mae pedair rhan i arolwg yr ymgynghoriad:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)
2. Cwestiynau am y Cynllun Rheoli Pysgodfa arfaethedig ar gyfer Draenogiaid Môr
3. Cwestiynau am Adroddiad Amgylcheddol Cynllun Rheoli Pysgodfa Draenogiaid Môr
4. Adborth ymgynghoreion ar yr Arolwg Ar-lein (gofynnol)

Chi sy'n dewis pa gwestiynau i'w hateb. Ceir cymysgedd o gwestiynau cyffredinol a phenodol am yr FMP arfaethedig a'r Adroddiad Amgylcheddol. Fodd bynnag, rhaid i bob ymatebydd lenwi'r adrannau 'Adborth gan yr Ymgynghorai ar yr Arolwg Ar-lein' a 'manylion personol a chyfrinachedd' cyn gallu cyflwyno eich ymateb i'r arolwg ar-lein. Rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth a thystiolaeth bellach i gefnogi'r gwaith hwn – gallwch ddarparu'r wybodaeth honno'n uniongyrchol drwy FMPconsultations@defra.gov.uk.

Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar [Citizen space - Ymgynghoriad ar Ddraenogiaid môr](#):

- Dogfen Ymgynghori FMP ar gyfer Draenogiaid môr
- FMP Arfaethedig Draenogiaid môr ac Atodiadau

- Adroddiad Amgylcheddol Cynllun Rheoli Pysgodfa ar gyfer Draenogiaid Môr
- Asesiad Effaith De Minimus yr FMP ar gyfer Draenogiad môr
- Copi o gwestiynau'r arolwg

Ymatebion

I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch holiadur yr ymgynghoriad a ddarperir drwy Citizen Space (mae Citizen Space yn adnodd ymgynghori ar-lein). Fel arall, gallwch lwytho cwestiynau'r arolwg i lawr i gyflwyno ymateb ysgrifenedig drwy e-bost neu drwy eu hanfon i'r cyfeiriad isod. Os oes arnoch angen copi o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni yn FMPconsultations@defra.gov.uk.

Gellir anfon ymatebion, gwybodaeth ychwanegol, neu ddogfennau at:

Ymgynghoriad FMP ar gyfer Draenogiaid môr
Consultation Coordinator
Second floor Foss House
Kings Pool 1 to 2 Peasholme Green
York YO1 7PX 5.

Dylid ymateb erbyn 1 Hydref 2023.

Yngywir,

Defra, Cyfarwyddiaeth y Môr a Physgodfeydd
FMPs@defra.gov.uk